WCVA
CGGC

Canfyddiadau Prosiect Ymchwil i'r Elusen Ddibynadwy

Crynodeb ar gyfer Cyllidwyr

Gwnaeth CGGC gomisiynu 20 Degrees Consulting Ltd i wneud gwaith ymchwil ar ymagweddau tuag at y Marc Ansawdd Elusen Ddibynadwy a thuag at safonau ansawdd yn fwy cyffredinol. Casglodd adborth gan elusennau, cyllidwyr a Chynghorau Gwirfoddol Sirol (CVCs) yng Nghymru.

Canfyddiadau cyffredinol o'r gwaith ymchwil

Nododd ymatebwyr bod nifer o fuddion i elusennau sydd â safon ansawdd. Mae dewis pa safon sy'n cyflwyno'r buddion mwyaf ar gyfer elusen benodol yn dibynnu ar amrediad o ffactorau, gan gynnwys:

- Y dibenion y mae'r elusen yn dymuno'u cyflawni wrth geisio ennill y marc
- Maint ac aeddfedrwydd yr elusen
- Cydnabyddiaeth o'r marc ansawdd ymhlith y rhanddeiliaid y mae'r elusen yn ceisio dylanwadu arnynt
- Parodrwydd neu allu'r elusen i fuddsoddi'r amser a'r arian sydd eu hangen i gyflawni'r marc.

Nid oes un safon ansawdd yn addas i anghenion pob elusen – mae eu hamgylchiadau'n amrywio. Mae'r rhan helaeth o elusennau a chyllidwyr yn cytuno y gallai mandadu'r defnydd o unrhyw farc ansawdd ar gyfer pob elusen greu mwy o broblemau na datrysiadau. Yr eithriadau yw'r safonau ansawdd hynny sydd eu hangen i ddangos gallu proffesiynol neu i fynd i'r afael â materion diogelwch neu sicrwydd.

'Y Marc Elusen Ddibynadwy sy'n cyflwyno'r budd mwyaf os ydych chi eisiau ymwreiddio diwylliant yn hytrach na thicio blychau.'

(Prif Weithredwr Elusen)

Ymwybyddiaeth ganolig i uchel o farciau ansawdd: Elusennau Cyllidwyr



Mae **Table 1** yn darparu trosolwg o'r dirwedd sicrhau ansawdd.

Tabl 1 – Prif fathau o farciau, safonau a dyfarniadau ansawdd

Math	Enghreifftiau	Prif fudd
Generig – yn gymwys i amrywiaeth eang o fudiadau	Elusen Ddibynadwy neu ISO 9001	Defnyddiol ar gyfer adolygiad llawn o holl agweddau mudiad
Mewnol	MQM – Marc Ansawdd MIND	Sicrhau safon gyson o wasanaeth ar draws safleoedd neu grwpiau lluosog mudiad
Safon is-sector neu broffesiynol	Respect – Safon ar gyfer pobl sy'n gweithio gyda chyflawnwyr trais neu gam-drin domestig yn y DU	Sicrwydd bod gan y mudiad y statws proffesiynol priodol
Mater penodol	Hyderus o ran Anabledd neu Gyflogwr Cyflog Byw	Dangos barn mudiad ar fater penodol

Y Marc Elusen Ddibynadwy

Mae'r Marc Elusen Ddibynadwy yn ddyfarniad cenedlaethol cydnabyddedig a ddyluniwyd ar gyfer elusennau. Gall elusennau wneud cais am y marc ansawdd ar ôl cwblhau proses hunanasesu.

Mae Elusen Ddibynadwy yn enw y mae elusennau'n ei hoffi - yn sicr yn fwy na'r enw blaenorol, PQASSO. Mae'n cyfleu'n gryno'r hyn y mae deiliaid y marc yn ceisio bod. Mae elusennau'n tueddu i gydnabod bod y marc wedi'i ddatblygu gan eu sector, ac felly â'r potensial i fodloni gofynion y sector yn well na safonau ansawdd cyffredinol eraill. Dim ond elusennau cofrestredig sy'n gallu ennill y Marc Elusen Ddibynadwy. Gan hynny, ni all y mudiadau hynny sy'n syrthio y tu allan i'r categori hwn ei ennill.

Mae cyllidwyr yn llai tebygol o gydnabod y Marc Elusen Ddibynadwy nag elusennau. Cydnabyddiaeth isel iawn sydd gan gomisiynwyr y sector cyhoeddus o'r Marc Elusen Ddibynadwy.

Pa Farc Ansawdd?

Gwnaeth elusen yng Nghymru sicrhau dros 20% o'i hincwm o wasanaethau a gomisiynwyd gan un awdurdod lleol. Rai blynyddoedd yn ôl, gwnaeth yr awdurdod lleol gyhoeddi tendr am wasanaethau, gan nodi y dylai fod gan fudiadau ISO 9001 neu gyfwerth. Pan ofynnwyd am enwau safonau cyfwerth, ni allai'r awdurdod lleol enwi'r un.

Er bod yr elusen wedi clywed am Elusen Ddibynadwy (a elwyd yn PQASSO ar y pryd), gwnaethant benderfynu mai eu hopsiwn mwyaf diogel oedd mynd am ISO 9001. Llwyddasant i wneud hyn yn gyflym, gan adeiladu ar systemau ansawdd a oedd eisoes ar waith ganddyn nhw. Y nod, yn syml, oedd ennill y marc ansawdd er mwyn sicrhau'r tendr. Cyflawnwyd hyn, ond credai'r mudiad fod y broses yn fiwrocrataidd iawn ac ni wnaeth wella ansawdd eu mudiad na'r gwasanaethau roedden nhw'n eu darparu.

Cred elusennau fod y broses asesu ar gyfer y marc Elusen Ddibynadwy yn drwyadl iawn, o'i chymharu â marciau eraill y maen nhw'n gyfarwydd â nhw. Mewn cyferbyniad, ychydig iawn o gyllidwyr sydd i weld yn deall yr ymdrech sylweddol sy'n mynd i mewn i ennill safon ansawdd eang, fel yr Elusen Ddibynadwy, o'i chymharu â safon â chwmpas llawer mwy cyfyngedig, fel Buddsoddwyr mewn Pobl, er enghraifft. O ganlyniad, mae lle i sicrhau bod cyllidwyr yn cael dealltwriaeth fwy annidwyll o ba mor ddwys a chymhleth yw'r safon a'r hyn y mae'n ei olygu i'w hennill.

Mae'r mudiadau sydd â'r Marc Elusen Ddibynadwy yn awgrymu mai'r prosesau adolygu, hunanasesu a gwella cynhwysfawr sy'n rhoi'r buddion mwyaf iddynt wrth geisio ennill y marc. Y buddion hyn yn bennaf yw polisïau, prosesau a gweithdrefnau gwell mewn meysydd fel llywodraethu a'r gallu i ddarparu gwasanaethau mewn modd cyson. O ganlyniad, mae'r mudiadau hynny sy'n ceisio byw'r gwerthoedd y mae eu hasesiadau'n seiliedig arnynt yn fwy tebygol o brofi buddion na'r rheini sy'n ceisio ennill safon ansawdd er mwyn cefnogi eu cynigion cyllido'n unig.

Buddion cael y marc Elusen Ddibynadwy

Gwnaeth mudiad ennill y marc Elusen Ddibynadwy. Siaradodd uwch-swyddog am y buddion a gyflwynwyd gan y marc. Awgrymodd hi fod y broses o weithio tuag at y marc wedi newid y ffordd y mae'r bwrdd yn meddwl ac yn gweithredu.

'Mae polisïau a gweithdrefnau wedi'u diweddaru. Mae prosesau llawer mwy llym ar waith bellach pan fydd y mudiad yn gwario arian.

Mae system gyfeillio wedi'i sefydlu fel ein bod yn gwybod bod cydweithiwr wedi cyrraedd gartref yn ddiogel os nad ydynt yn dychwelyd i'r swyddfa ar ôl cyfarfod.

Er bod y bwrdd yn hapus gyda'i gynrychiolaeth, mae matrics sgiliau wedi'i gyflwyno i lywio meysydd datblygu ar gyfer penodiadau yn y dyfodol.'

Noda elusennau ddau brif rwystr i ennill y Marc Elusen Ddibynadwy llawn. Mae'r ffioedd asesu'n rhwystr i rai elusennau, ond mae hwn yn tueddu i ddod yn ail. Mae'r ymrwymiad amser i gyflawni'r marc yn rhwystr llawer mwy sylweddol i lawer.

Mae elusennau a chyllidwyr yn cytuno y byddai'n ddefnyddiol pe bai gan gyllidwyr a chomisiynwyr gwasanaethau yn y sector cyhoeddus werthfawrogiad dyfnach am gwmpas y Marc Elusen Ddibynadwy a'r ymdrech sydd ei hangen i'w ennill.

Canran yr elusennau sy'n credu y byddai'r marc Elusen Ddibynadwy o fudd iddynt:



Llywodraethu gwell



Ansawdd gwell wrth gyflawni amcanion craidd y mudiad



Enw gwell gyda chyllidwyr

'Roedd yn broses drwyadl o waith a gymerodd misoedd lawer, ond roedd yn bendant yn werth yr ymdrech.'

Cynrychiolydd elusen sydd â'r Marc Elusen Ddibynadwy

'Er nad yw'n hanfodol, mae safon yn bendant yn cefnogi hyder mewn mudiad.'

(Cyllidwr)

'Mae'n canolbwyntio ar lywodraethu da ac arfer gorau, ac yn eich cymell i ddod o hyd i'r amser i roi sylw iddo.'

Prif Weithredwr CVC yn myfyrio ar brofiad mudiad o gael y marc Elusen

WCVA
CGGC

Korina Tsioni
ktsioni@wcva.cymru
@WCVACymru @WCVACymru